Mae'r cofnodion hyn yn destun cymeradwyaeth fel cofnod cywir yng nghyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Archifau Morgannwg

CYDBWYLLGOR ARCHIFAU MORGANNWG

Cofnodion Cyfarfod y Cydbwyllgor Archifau Morgannwg a gynhaliwyd yn Archifau Morgannwg - Clos Parc Morgannwg, Lecwydd, Caerdydd ar Dydd Gwener, 15 Mawrth 2019 yn 2.00 pm.

Yn bressenol:

| | |
|---|---|
| Aelodau: | Burnett, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Cadeirydd)<br>Cowan, Cyngor Caerdydd<br>Henshaw, Cyngor Caerdydd<br>Jarvie, Cyngor Bro Morgannwg<br>Robson, Cyngor Caerdydd |

25 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Colbran, Cunnah, George, Barbara Jones, Keith Jones, Rhys Lewis, Wendy Lewis, Robertson a Smith.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Kate Thomas hefyd.

26 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Robson fuddiant personol yn Eitem 4 gan ei fod wedi'i gyflogi gan David Melding AS y cyfeirir ato yn yr adroddiad.

27 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2018 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd, ar yr amod y caiff y gwall teipio ei gywiro.

28 : ADRODDIAD AR GYFER Y CYFNOD 1 RHAGFYR 2018 - 28 CHWEFROR 2019

Rhoddwyd i'r Aelodau ddiweddariad ar waith, ymweliadau a chyflawniadau'r gwasanaeth ar gyfer y cyfnod 1 Rhagfyr 2018 – 28 Chwefror 2019; Dashfwrdd Amcanion, Atodiadau'n rhestru derbyniadau nodedig, gwybodaeth am gasgliadau a'r ymholiadau diddorol.

I grynhoi, esboniodd yr Archifydd fod ceisiadau am grantiau'n parhau i ddwyn ffrwyth ac yn werthfawr er mwyn cwblhau'r gwaith o restru casgliadau mwy a mwy cymhleth. Mae cyfraniad gwirfoddolwyr sy'n ychwanegu gwerth at y catalog ac sy'n gwella cyflwr y Casgliad yn parhau i fod yn hanfodol i ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan graidd llai o staff ymroddedig a chymwys iawn. Mae cynnwys Hyfforddeion yn y sefydliad wedi bod yr un mor fuddiol, gan roi cyfle i staff rannu eu harbenigedd yn ogystal â'u llwyth gwaith. Nid yw'r galw am y gwasanaeth yn lleihau ac mae Archifau Morgannwg wedi ymrwymo i ateb y galw hwnnw.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i’r aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

Roedd yr Aelodau’n drist clywed am farwolaeth Mr Murray McLaggan ac roeddent am archwilio ffordd o ddala ei ymrwymiad i’r Archifau dros y llawer o flynyddoedd. Cytunodd yr Archifydd y byddai’n siarad â staff ac yn ystyried rhai opsiynau ar gyfer hyn.

Nododd yr Aelodau nad yw’r gwasanaeth wedi mynychu unrhyw ddigwyddiadau ym Mro Morgannwg, byddid yn parhau i archwilio hyn.

PENDERFYNWYD: nodi’r adroddiad.

29 : GWERTHUSO CYNLLUN BLYNYDDOL 2018-2019

Rhoddwyd diweddariad i'r Aelodau ar fwrw'r targedau a nodir yn y Cynllun Blynyddol ar gyfer 2018-2019.

PENDERFYNWYD: nodi cynnydd wedi'i wneud tuag at gyflawni'r prif amcanion yn y cynllun.

30 : CYNLLUN BLYNYDDOL 2019-2020

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr adroddiad hwn yn ceisio cymeradwyaeth am Gynllun Blynyddol 2019-2020 Archifau Morgannwg.

Dywedwyd wrth yr Aelodau, yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol, fod cynnydd wedi bod yn erbyn yr holl dargedau yn y cynllun blynyddol cyfredol. Cytunwyd ar strategaeth tair blynedd yn 2018 y mae cynllun y flwyddyn gyfredol yn cydymffurfio â hi. Mae gwerthusiadau wedi’u cynllunio’n gynigion yn unig; caiff gwerthusiad manwl ei nodi ar gyfer y pwyntiau bwled y mae staff eu dilyn yn rhan o bob tasg. Atodwyd yr amcanion ar gyfer y cyfnod at yr adroddiad wedi’u dilyn gan y cynllun manwl ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Mae’r cynllun wedi’i llunio gydag ymgynghoriad llawn â staff a chaiff targedau eu monitro trwy’r flwyddyn. Mae Archifydd Morgannwg yn diweddaru’r Aelodau ar gynnydd yn erbyn y targedau a thasgau manwl mewn adroddiadau bob tri mis i’r Cydbwyllgor. Adroddid materion sy’n effeithio ar fwrw’r targedu’n rheolaidd. Dywedwyd wrth yr Aelodau mai’r prif newid yn y Cynllun Blynyddol eleni yw’r Strategaeth Ddigitaleiddio.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i’r aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

Cyfeiriodd yr Aelodau at y targed ar gyfer digwyddiadau allanol a thybion nhw a yw hyn yn darged effeithiol sydd o fudd i'r gwasanaeth. Credodd yr Archifydd fod angen newid y targed. Trafododd yr Aelodau y ffactorau allanol a all effeithio ar beidio â gallu mynychu digwyddiadau yn ardal pob Awdurdod Lleol megis p’un a oes Amgueddfa, cymdeithasau hanes lleol, demograffeg, Arian Cronfa Dreftadaeth y Loteri ac ati. Credodd yr Archifydd y gellid newid y targed i greu cysylltiadau gyda chymdeithasau lleol yn ardal pob Awdurdod Lleol, neu’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a byddai hyn yn cael ei ystyried ymhellach a’i gyflwyno i’r Cydbwyllgor.

PENDERFYNWYD: cymeradwyo’r cynllun.

31 : UNRHYW FATER ARALL

Dymuniad yr Archifydd oedd rhoi gwybod i’r Aelodau am ei bwriad i ymddeol erbyn mis Ebrill 2020; dywedodd ei bod wedi gwneud cais i ymddeol yn hyblyg gyda'i horiau'n lleihau gan chwarter o fis Ebrill 2019 a hysbysiad ffurfiol yn cael ei roi ym mis Medi 2019. Esboniodd yr Archifydd y byddai'n dod ag adroddiad ar y cynigion ar gyfer ei hymddeoliad i gyfarfod y Cydbwyllgor ym mis Medi.

Roedd y Cadeirydd yn dymuno diolch i’r Archifydd am ei holl gymorth, gwaith ac ymrwymiad i’r gwasanaeth dros y blynyddoedd.

32 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Mae cyfarfod nesaf Cydbwyllgor Archifau Morgannwg i’w gynnal ar 14 Mehefin 2019 am 2pm.

The meeting terminated at 3.00 pm